Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Modiwlau 2, 2A, 2B, 2C Ymchwiliad Covid-19 y DU: Gwneud penderfyniadau craidd a llywodraethiant gwleidyddol

Mawrth 2026

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53682, ISBN digidol 978-1-83745-319-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Modiwlau 2, 2A, 2B, 2C Ymchwiliad COVID-19 y DU: Gwneud penderfyniadau craidd a llywodraethu gwleidyddol

## Rhagair gan y Gweinidog

Cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus Farwnes Hallett DBE, Cadeirydd Ymchwiliad COVID-19 y DU, ei hail adroddiad ar gyfer Ymchwiliad COVID-19 ar 20 Tachwedd 2025, o'r enw 'Gwneud penderfyniadau craidd a llywodraethu gwleidyddol'. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r dystiolaeth a glywyd ym Modiwl 2, a ystyriodd, ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU, yr ymateb cychwynnol, prosesau gwneud penderfyniadau'r llywodraeth ganolog, perfformiad gwleidyddol a pherfformiad y gwasanaeth sifil yn ogystal ag effeithiolrwydd cydberthnasau â'r llywodraethau datganoledig. Archwiliodd Modiwl 2 y materion hyn mewn perthynas â Llywodraeth y DU, ond roedd Modiwlau 2A, 2B a 2C yn fodiwlau unigol a aeth ati i archwilio'r un materion o safbwynt yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn y drefn honno, gan gynnal gwrandawiadau ym mhob gwlad. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru fwy na 70 o ddatganiadau tystion i'r Modiwl hwn a rhoddodd 14 o dystion o Lywodraeth Cymru dystiolaeth yn y gwrandawiadau llafar a gynhaliwyd yng Nghymru ym mis Chwefror a mis Mawrth 2024.

Cafodd y pandemig effaith sylweddol a pharhaus ar bawb yng Nghymru. Rydym yn cydymdeimlo o hyd â'r teuluoedd a'r unigolion a wnaeth golli anwyliaid agos a phawb yr effeithiwyd ar eu bywyd. Mae'n bwysig ein bod yn dysgu'r gwersi o'n hymateb i'r pandemig er mwyn sicrhau ein bod mor barod â phosibl ar gyfer unrhyw bandemig neu argyfwng arall yn y dyfodol.

Felly mae Llywodraeth Cymru yn croesawu cyhoeddi adroddiad Modiwl 2 ac yn diolch i'r Cadeirydd a thîm yr Ymchwiliad am y gwaith cynhwysfawr a wnaed ganddynt i gasglu amrywiaeth gynhwysol o dystiolaeth gan dystion ffeithiol a thystion arbenigol ac unigolion yr effeithiodd y pandemig arnynt, er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r prosesau craidd ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn argyfyngau yn y dyfodol.

Yn ystod y pandemig, roedd llywodraethu effeithiol a strwythurau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau yn allweddol i ymateb Llywodraeth Cymru gan ein galluogi i ymateb mewn ffordd benderfynol a thryloyw yn ystod cyfnod eithriadol o heriol. Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr Ymchwiliad yn cydnabod llawer o gryfderau ein prosesau gwneud penderfyniadau: y rhan lawn a chwaraeodd y Cabinet drwy gydol y pandemig,

gan wneud penderfyniadau tryloyw ar y cyd; ein hymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol ac i weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol. Mae sawl un o argymhellion yr Ymchwiliad yn adlewyrchu camau gweithredu arfer gorau a mentrau a roddwyd ar waith yng Nghymru, ac mae eraill yn ymwneud â materion lle rydym eisoes wedi cymryd camau sylweddol pellach ers y pandemig, fel cyhoeddi Fframwaith Gwydnwch Cymru, datblygu ein fframwaith pum niwed ymhellach, a gwaith i ddatblygu a phrofi model tasglu parhaus ar gyfer argyfyngau systemau cyfan.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud, fel y disgrifir gennym isod yn ein hymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Ymchwiliad; rydym hefyd yn parhau i wneud cynnydd mewn ymateb i Fodiwl 1, fel y nodir yn ein diweddariad Modiwl 1 a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod sawl un o'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad Modiwl 2, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â strwythurau rhynglywodraethol, cysylltiadau, cyfathrebu a strwythurau gwneud penderfyniadau brys yn gofyn am gydweithio. Wrth ddatblygu ein hymateb i adroddiad Modiwl 2, rydym felly wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Fel Prif Weinidog, rwy'n falch o'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ymateb i bandemig COVID-19 ac i greu Cymru sy'n gryfach ac yn fwy gwydn.

## Cyflwyniad

Prif gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cadw pobl Cymru yn ddiogel, gan gynnwys mewn argyfwng, ac mae'n atebol o safbwynt democrataidd am y ffordd y mae'n gwneud hynny. Mae gan y Senedd hefyd rôl gyfansoddiadol hanfodol yn gwneud deddfau mewn meysydd datganoledig ac yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn atebol am y penderfyniadau a wneir ganddi.

Er mwyn ymateb yn effeithiol i argyfwng, rhaid cael strwythurau effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau: mae hyn yn golygu

- Gwneud penderfyniadau yn y lle cywir, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau;
- Gwrando ar safbwyntiau ein rhanddeiliaid a gweithredu ar y safbwyntiau hynny drwy ddull partneriaeth gymdeithasol;
- Cynnal asesiad cywir o'r effaith y bydd yr argyfwng ei hun a'r mesurau a gymerir i ymateb iddo yn ei chael ar bobl;
- Rhoi systemau effeithiol ar waith i weithredu penderfyniadau ac i fonitro eu heffeithiolrwydd;
- Llunio trefniadau rhynglywodraethol cadarn er mwyn i'r pedair gwlad allu cydweithio'n effeithiol.

Aeth y Farwnes Hallett a'i thîm ati i ystyried yn ofalus sut y gwnaeth Cymru benderfyniadau mewn ymateb i'r pandemig ac maent wedi gwneud cyfres o argymhellion wedi'u hanelu at wella'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn argyfwng. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu archwiliad manwl yr Ymchwiliad o'r prosesau gwneud penderfyniadau ac yn nodi isod ei hymatebion i'r argymhellion, mewn perthynas â chyfres o themâu:

- Cyngor gwyddonol a thechnegol
- Nodi'r rheini sy'n wynebu risg mewn argyfwng
- Prosesau gwneud penderfyniadau'r Llywodraeth
- Deddfwriaeth
- Prosesau gweithio rhynglywodraethol
- Cyfathrebu â'r cyhoedd

Rydym wedi cytuno â'r Ymchwiliad y byddwn yn rhoi diweddariadau bob chwe mis ar gynnydd yn erbyn argymhellion y modiwl ar gyfnodau penodedig, sef mis Mai a mis Tachwedd bob blwyddyn. O ystyried nad oes llawer o amser rhwng cyhoeddi'r adroddiad hwn a mis Mai 2026, a'r ffaith bod etholiad y Senedd hefyd yn cael ei gynnal ym mis Mai 2026, byddwn yn rhoi diweddariad ar ein cynnydd ym mis Tachwedd 2026.

# 1. Cyngor gwyddonol a thechnegol

| |
|---|
| **Argymhelliad 2: Presenoldeb y gweinyddiaethau datganoledig yng nghyfarfodydd SAGE**<br><br>Dylai Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth (GO-Science) wahodd llywodraethau'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i enwebu nifer bach o gynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) o ddechrau unrhyw argyfwng yn y dyfodol. Dylai statws y cynrychiolwyr hynny fel naill ai 'cyfranogwr' neu 'arsylwr' ddibynnu ar eu harbenigedd a dylai fod yn fater i SAGE benderfynu arno. |
| **Argymhelliad 3: Cofrestr o arbenigwyr**<br><br>Dylai Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth (GO-Science) ddatblygu a chynnal cofrestr o arbenigwyr ar draws pedair gwlad y DU a fyddai'n fodlon cymryd rhan mewn grwpiau cynghori gwyddonol, yn cwmpasu ystod eang o argyfyngau sifil posibl. Dylid adnewyddu'r gofrestr yn rheolaidd drwy alwadau agored am geisiadau. |
| **Argymhelliad 4: Cyhoeddi cyngor technegol**<br><br>Yn ystod argyfwng sifil system gyfan, dylai llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig – pob un ohonynt, fel mater o drefn – gyhoeddi cyngor technegol ar faterion gwyddonol, economaidd a chymdeithasol cyn gynted ag y bo modd, yn ogystal â chofnodion grwpiau cynghori arbenigol – ac eithrio pan fo rhesymau da sy'n atal cyhoeddi, megis cyfrinachedd masnachol, diogelwch personol neu ddiogelwch gwladol, neu oherwydd bod braint cyngor cyfreithiol yn gymwys. |
| **Argymhelliad 5: Cymorth i gyfranogwyr mewn grwpiau cynghori**<br><br>Dylai Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth (GO-Science), Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon) ddatblygu telerau penodi safonol ar gyfer yr holl gyfranogwyr mewn grwpiau cynghori gwyddonol. Dylai'r telerau hyn gynnwys:<br><br>• eglurder ynghylch natur rôl unigolyn a maint ei gyfrifoldeb, yn ogystal â'r ymrwymiad amser tebygol;<br>• taliad pan fo'r ymrwymiad amser yn golygu bod rhaid i'r unigolyn dreulio amser i ffwrdd o'i rôl barhaol;<br>• mynediad at wasanaethau cymorth;<br>• mynediad at gyngor ar ddiogelwch personol ac ar-lein, a gweithdrefnau ar gyfer uwchgyfeirio pryderon penodol. |

1.1. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus ar ddechrau'r adran hon i gymeradwyo cyflwyniad yr Ymchwiliad i'w bennod ar gyngor gwyddonol. Rydym ninnau hefyd yn cydnabod pa mor ffodus y bu Cymru a'r DU i allu manteisio ar arbenigedd gwyddonwyr ac arbenigwyr eraill, a weithiodd o dan bwysau eithriadol, i roi cyngor i weinidogion, a hoffem ddiolch o waelod calon iddynt. Rydym hefyd yn cytuno'n gryf fod yr ymosodiadau personol, y sylwadau sarhaus a'r bygythiadau y gwnaeth llawer o'r arbenigwyr eu dioddef yn gwbl annerbyniol.

**Mynediad at gyngor gwyddonol a thechnegol**

1.2. Wrth ymateb i unrhyw argyfwng system gyfan, mae'n allweddol y gall pob llywodraeth gael gafael ar y cyngor gwyddonol gorau. Fodd bynnag, yn ei adroddiad Modiwl 2, mae'r Ymchwiliad yn nodi na chafodd y llywodraethau datganoledig eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd SAGE o ddechrau'r pandemig, ac nad oedd y prosesau a ddefnyddiwyd gan y llywodraethau datganoledig wedi hynny i sicrhau cynrychiolaeth briodol yn ddiogon eglur.

1.3. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r asesiad hwn ac yn croesawu **argymhelliad 2** yr ymchwiliad, y dylai Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DU wahodd llywodraethau'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i enwebu nifer bach o gynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd SAGE o ddechrau unrhyw argyfwng yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, nodwn fod canllawiau SAGE ei hun yn datgan *"Departmental, DA and non-departmental government body CSAs (and CMOs and CVOs if relevant) are likely to form the initial core participants of any SAGE."*

1.4. Dylai cyfansoddiad SAGE adlewyrchu pob un o wledydd y DU os caiff ei sefydlu ar sail y DU gyfan i roi cyngor gwyddonol oherwydd gall sefyllfa godi yn unrhyw ran o'r DU. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd Llywodraeth Cymru yn trafod yr unigolion priodol i fynychu SAGE gyda'r ysgrifenyddiaeth, gan gymhwyso egwyddorion canllawiau SAGE, ac yn cytuno ar yr unigolion hynny. Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng gwneud yn siŵr ein bod wedi ein cynrychioli'n briodol yn ystod cyfarfodydd SAGE a gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth, a gyda'r llywodraethau datganoledig eraill, i fireinio a chytuno ar drefniadau diwygiedig ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth ddatganoledig yng nghyfarfodydd SAGE.

1.5. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn croesawu **argymhelliad 3** yr Ymchwiliad, y dylai Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DU ddatblygu a chynnal cofrestr o arbenigwyr ar draws y pedair gwlad a fyddai'n fodlon cymryd rhan mewn grwpiau cynghori gwyddonol, i gwmpasu ystod eang o argyfyngau sifil posibl.

1.6. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu cronfa o arbenigwyr posibl a fyddai'n gallu rhoi cyngor technegol a gwyddonol arbenigol i Lywodraeth Cymru mewn argyfwng. Caiff y gofrestr hon ei chynnal a'i datblygu gan Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru, gyda phob rhan o Lywodraeth Cymru yn cyfrannu ati. Mewn argyfwng, bydd gan 'Grŵp Cynghori Gwyddonol a Thechnegol' rôl i'w chwarae wrth sicrhau bod y systemau a'r prosesau cywir ar waith i roi cyngor gwyddonol a thechnegol, gan ddefnyddio'r gofrestr o arbenigwyr fel y bo'n ofynnol.

1.7. Byddwn hefyd yn darparu mewnbwn a chymorth i Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu ei chofrestr, gan ddefnyddio arbenigedd a rhwydweithiau ein Prif Gynghorydd Gwyddonol, Prif Swyddog Meddygol Cymru, ac arbenigwyr eraill fel Prif Swyddog Milfeddygol Cymru. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod yr angen a nodwyd gan yr Ymchwiliad i geisio sicrhau bod grwpiau cynghori gwyddonol ledled y DU yn cynnwys aelodau o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau, cefndiroedd a phrofiadau.

**Cyhoeddi cyngor gwyddonol a thechnegol**

1.8. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod tryloywder yn parhau wrth wraidd ei dull gweithredu mewn perthynas ag argyfyngau yn y dyfodol, fel yr oedd yn ystod pandemig COVID-19. Fel y noda'r Ymchwiliad, yn ystod y pandemig, cafodd bron pob un o ddogfennau'r Gell Cyngor Technegol a'r Grŵp Cyngor Technegol eu cyhoeddi o fis Mai 2020 ymlaen, ac rydym yn croesawu ei gasgliad sy'n nodi "*publishing these documents gave the Welsh public insight into the science behind key decisions, helping to explain lockdowns and social distancing rules.*"

1.9. Felly rydym yn derbyn **argymhelliad 4** yr Ymchwiliad, yn ystod argyfwng sifil system gyfan, y dylai pob llywodraeth, fel mater o drefn, gyhoeddi cyngor ar faterion gwyddonol, economaidd a chymdeithasol cyn gynted ag

y bo modd, ynghyd â chofnodion cyfarfodydd, ac eithrio pan fo rhesymau da megis cyfrinachedd masnachol, diogelwch personol neu ddiogelwch gwladol, neu oherwydd bod braint cyngor cyfreithiol yn gymwys.

1.10. Rydym eisoes wedi gwneud ymrwymiad cadarn i dryloywder yn ein Fframwaith Gwydnwch Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025, sy'n cynnwys ymgysylltu'n well a bod yn fwy tryloyw fel nod strategol allweddol, gan anelu at sicrhau bod gan bobl Cymru gyd-ddealltwriaeth a mwy o ymwybyddiaeth o'r risgiau a'r trefniadau i reoli'r risgiau hynny, ac y gallwn wella atebolrwydd i'r cyhoedd, gan gynnal hyder yn y camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gadw ein dinasyddion yn ddiogel. Mae ein Fframwaith Cyflawni Gwydnwch Cymru (Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025) yn nodi amrywiaeth o gamau gweithredu eraill y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth well o'r risgiau argyfyngau sifil posibl yng Nghymru.

1.11. Yn unol â'n hymrwymiadau yn Fframwaith Gwydnwch Cymru, yn ystod unrhyw argyfwng system gyfan yn y dyfodol, ein nod fydd sicrhau cymaint o dryloywder â phosibl mewn perthynas â'r cyngor sy'n sail i benderfyniadau. Fodd bynnag, bydd p'un a gaiff darnau unigol o gyngor eu cyhoeddi ai peidio yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr argyfwng ar y pryd yn ogystal â chynnwys y cyngor; er enghraifft, mae'n bosibl na fydd yn ymarferol nac yn ddymunol cyhoeddi cyngor yn ystod argyfwng na fydd ond yn para am gyfnod byr. Llywodraeth Cymru ar adeg yr argyfwng fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid cyhoeddi cyngor, gan bwyso a mesur ystyriaethau tryloywder yn erbyn y risgiau sy'n gysylltiedig â datgelu darnau penodol o gyngor.

### Cymorth i gyfranogwyr mewn grwpiau cynghori gwyddonol

1.12. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn **argymhelliad 5** yr Ymchwiliad, y dylai hi a'r llywodraethau eraill ddatblygu telerau penodi safonol ar gyfer yr holl gyfranogwyr mewn grwpiau cynghori gwyddonol. Rydym yn cydnabod y cyfraniad eithriadol a wnaed gan arbenigwyr gwyddonol, ac yn gresynu wrth y sylwadau sarhaus a'r bygythiadau a wynebwyd gan lawer ohonynt, ac rydym yn cytuno ei bod hi'n hanfodol datblygu telerau penodi safonol er mwyn i arbenigwyr deimlo'n hyderus yn cefnogi gwaith llywodraethau wrth fynd i'r afael ag argyfyngau yn y dyfodol.

1.13. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r pedair gwlad ddatblygu eu telerau penodi unigol, a fydd yn ein galluogi i adlewyrchu amgylchiadau pob gwlad, ond rydym hefyd o'r farn y byddai'n fuddiol sicrhau cysondeb ledled y DU. Felly byddwn yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wrth ddatblygu ein telerau penodi, gan anelu at ddatblygu cyngor pellach ar gynnydd i Weinidogion newydd Cymru erbyn 30 Medi 2026.

## 2. Nodi'r rheini sy'n wynebu risg mewn argyfwng

**Argymhelliad 8: Fframwaith ar gyfer ystyried y rhai sy'n wynebu risg mewn argyfwng**

Dylai llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gytuno ar fframwaith sy'n nodi pobl a fyddai'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu heintio gan glefyd a marw o glefyd, a'r rhai sydd fwyaf tebygol o brofi effaith negyddol yn sgil unrhyw gamau a gymerir i ymateb i bandemig yn y dyfodol. Dylai'r fframwaith nodi'r camau penodol y gellid eu cymryd i liniaru'r risgiau i'r bobl hyn.

Dylai asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb fod yn rhan o'r fframwaith hwn. Pan na fo modd eu cynnal mewn argyfwng gwladol, dylid eu hadfer cyn gynted â phosibl.

Dylai pob llywodraeth gytuno a chyhoeddi yn ei hymateb i'r Adroddiad hwn sut y bydd yn sicrhau bod y fframwaith hwn yn cael ei ymgorffori yn y broses o wneud penderfyniadau mewn argyfwng a phwy fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y materion hyn yn parhau i gael eu hystyried drwy gydol argyfwng gwladol.

2.1. Fel y nodir uchod, prif gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cadw pobl Cymru yn ddiogel. Er mwyn gwneud hynny, mae'n hollbwysig y gallwn nodi, cyhyd ag y bo'n ymarferol, y rhai hynny sy'n wynebu risg mewn argyfwng, ac felly rydym yn derbyn argymhelliad 8. Rydym eisoes wedi gwneud cryn gynnydd, fel y nodir isod.

### Fframwaith Gwydnwch Cymru

2.2. Mae Fframwaith Gwydnwch Cymru yn nodi'r angen am systemau effeithlon ac effeithiol i gefnogi ymatebwyr Categori 1 a 2 wrth iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau statudol, sy'n cynnwys rhannu gwybodaeth o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac ystyried yr effaith ar bobl sy'n wynebu mwy o risg cyn argyfwng, yn ystod argyfwng ac ar ôl argyfwng. Ers hynny, rydym wedi atgyfnerthu ein parodrwydd am argyfwng, gan gynnwys:-

- Galluogrwydd data, tystiolaeth a dadansoddi penodedig, gan integreiddio data i waith cynllunio ac ymatebion;
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Chanolfan Sefyllfa Genedlaethol y DU, sy'n sicrhau bod prosesau cilyddol ar waith i rannu data yn ystod argyfyngau.

2.3. Rydym wedi datblygu Cysyniad Gweithrediadau sy'n berthnasol i bob categori o ddigwyddiad (lefelau 0-3). Ar gyfer ein categorïau digwyddiad lefel 2 a 3 – sef digwyddiadau o bwys neu gatastroffig, mae'r Cysyniad Gweithrediadau yn cynnwys Cell Tegwch a Chydraddoldebau fel rhan o'n strwythur ymateb. Byddwn hefyd yn manteisio ar grwpiau sy'n bodoli eisoes y gellid eu defnyddio i rannu gwybodaeth neu lywio camau gweithredu, fel y gwnaethom yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, Fforwm Hil Cymru, y Fforwm Cymunedau Ffydd, grŵp rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, Grŵp Cynghori'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl, y grŵp Rhanddeiliad LHDTC+, Fforwm Cydraddoldeb Rhywedd a grŵp Iaith Arwyddion Prydain. Mae'r ffora hyn yn cynnwys pobl â phrofiad bywyd sy'n gweithio'n barhaus gyda Llywodraeth Cymru, ac sydd mewn sefyllfa dda i roi tystiolaeth a gwybodaeth yn arbennig am grwpiau risg uchel penodol.

## Adeiladu ar ein dull pum niwed

2.4. Rydym yn ddiolchgar i'r Ymchwiliad am gydnabod y fframwaith niwed a fabwysiadwyd ac a ddatblygwyd gennym yn ystod pandemig COVID-19 a nododd y pedair ffordd (ac yn ddiweddarach y pum ffordd) y gallai COVID-19 achosi niwed i bobl yng Nghymru[1]. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o gynnydd wrth ystyried y rhai hynny sy'n wynebu risg, ac ymgymryd â rhagor o waith i ddatblygu ein dull gweithredu.

2.5. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ei bod hi'n bwysig nodi'r rhai hynny a fyddai'n wynebu'r risg fwyaf o glefyd a'r rhai hynny y mae mesurau ymatebol a gymerir drwy gydol pandemig, o'r cam ymddangos i'r cam adfer, yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt, a pharhau i'w hasesu – cyn belled ag y bo'n ymarferol. Bydd hyn yn cynnwys casglu tystiolaeth a dadansoddiadau o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys yn rhyngwladol, ar nodweddion y clefyd ac a oes unrhyw unigolion yn wynebu mwy o risg – naill ai o

1. [1] *Niwed uniongyrchol yn deillio o COVID-19 a chlefydau heintus eraill;*
2. *Niwed anuniongyrchol o ganlyniad i bwysau ar y system iechyd a gofal cymdeithasol;*
3. *Niwed yn deillio o fesurau i ddiogelu iechyd yn seiliedig ar y boblogaeth;*
4. *Niwed economaidd;*
5. *Niwed sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau – trawsbynciol ac wedi'i waethygu gan yr uchod*

ddatblygu'r clefyd neu o ganlyniadau negyddol. Ni allwn dybio bod y grŵp/grwpiau sy'n wynebu mwy o risg yr un peth ag ar gyfer argyfyngau neu bandemigau blaenorol. Dylid bob amser wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ar y pryd, a all weithiau fod yn gyfyngedig neu'n anghyflawn – yn enwedig yn ystod camau cynnar pandemig newydd.

2.6. Bydd ein dull gweithredu yn cynnwys cynnal dadansoddiadau parhaus o'r dystiolaeth ac adolygu a diwygio penderfyniadau wrth i fwy o ddata, tystiolaeth ac ymchwil ddod i'r amlwg.

2.7. Diweddarwyd y fframwaith i fod yn agnostig o safbwynt clefydau a bydd yn parhau'n elfen allweddol wrth helpu i wneud penderfyniadau mewn perthynas â bygythiadau yn y dyfodol, gan ein helpu i gydbwyso effeithiau a gwneud penderfyniadau mewn ffordd dryloyw, gan ystyried effeithiau sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol, yr economi a chydraddoldeb.

2.8. Profwyd hyn drwy Ymarfer Pegasus a chaiff ei adolygu fel rhan o'r gwerthusiad. Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2026. Os bydd argyfwng arall, byddwn hefyd yn gweithio gyda llywodraethau eraill ac asiantaethau iechyd y cyhoedd i gytuno ar ddiffiniadau clir o'r rhai hynny sy'n wynebu risg yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r cyngor gwyddonol a chlinigol diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y digwyddiad penodol hwnnw. Byddai hyn yn llywio'r fframwaith pum niwed er mwyn helpu i wneud penderfyniadau mewn argyfwng yn y dyfodol, ochr yn ochr ag asesiadau risg ac asesiadau effaith dynamig.

## Data

2.9. Mae Fframwaith Gwydnwch Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio ledled y DU, wrth baratoi ar gyfer argyfwng ac ymateb iddo, er mwyn cael gafael ar y setiau data mwyaf perthnasol, ble bynnag y cânt eu cadw, i'n helpu i feithrin dealltwriaeth ynghylch breguster a rhoi cymorth gweithredol i'r unigolion hynny.

2.10. Mae cael gafael ar y data cywir yn ffactor hanfodol wrth asesu risgiau i grwpiau agored i niwed, ac rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau yng Nghymru i rannu arferion gorau mewn perthynas ag asesu effeithiau risgiau ar bobl sy'n agored i niwed a phobl ag anghenion penodol. Rydym yn edrych

ar ffyrdd o ddefnyddio data a gwybodaeth i helpu partneriaid i nodi grwpiau agored i niwed a grwpiau sy'n wynebu risg er mwyn sicrhau y gellir rhoi blaenoriaeth i gymorth mwy penodol wedi'i deilwra'n arbennig yn genedlaethol ac yn lleol yn ystod unrhyw ddigwyddiad i'r bobl hynny y gall fod ei angen fwyaf arnynt. Yn ystod y flwyddyn hon, bydd is-grŵp data Partneriaeth Gwydnwch Cymru yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth i asesu'r materion, yr anghenion a'r bylchau data ar draws amrywiaeth o argyfyngau (nid pandemigau yn unig). Caiff y gwaith hwn ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2027.

2.11. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio i wella llwyfan data JIGSO, a ddefnyddir ar gyfer cynllunio ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt. Mae JIGSO yn darparu mynediad diogel sy'n galluogi ymatebwyr i nodi aelwydydd sy'n cynnwys unigolion sydd ar Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth Dŵr Cymru. Mae hyn yn galluogi partneriaid awdurdodedig ym mhob rhan o'r gymuned gwydnwch a'r gwasanaethau brys i ddod o hyd i'r rhai hynny sydd o bosibl yn wynebu mwy o risg a'u cefnogi. Bydd gwelliannau parhaus i JIGSO yn rhoi mynediad cyflymach i ymatebwyr i ddata mwy cynhwysfawr, ac rydym yn gweithio gyda chwmnïau cyfleustodau a chyrff cyhoeddus i ehangu'r amrywiaeth o ddata sy'n gysylltiedig ag unigolion agored i niwed y gellir eu rhannu drwy'r llwyfan.

### Gwella Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

2.12. Ar 21 Tachwedd 2025, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gytundeb cyfreithiol ffurfiol â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o dan adran 23 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Mae'r cytundeb yn ymwneud yn rhannol â phryderon a godwyd gan y Comisiwn am anghysondebau o ran y ffordd y caiff asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb eu cynnal a'u cyhoeddi.

2.13. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu dwy flynedd. Bydd y cynllun yn seiliedig ar ddiwygiadau diwylliannol i'r broses o gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r broses lywodraethu. Mae'r cytundeb hwn yn cynnig cyfle unigryw inni atgyfnerthu ein dull gweithredu mewn perthynas ag asesu'r effaith ar gydraddoldeb, gan sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn gyson ym mhob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys wrth baratoi ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Comisiwn ar ei chynnydd wrth roi'r cynllun gweithredu ar waith.

**Nodi effaith anghydraddoldebau yn ystod Ymarfer Pegasus**

2.14. Un o amcanion cyffredin Ymarfer Pegasus oedd ystyried effaith anghydraddoldebau a'r broses ar gyfer eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am bandemigau.

2.15. Wrth baratoi ar gyfer Ymarfer Pegasus, gwnaethom helpu Canolfan Sefyllfa Genedlaethol y DU i ddod o hyd i ddata, i ddatblygu ac i brofi ei Hadnodd Bregusrwydd Risg Pandemig sy'n rhoi trosolwg o'r unigolion a'r aelwydydd y gallai pandemig iechyd dynol gael effaith fwy andwyol arnynt. Mae'r adnodd yn defnyddio dangosyddion o lenyddiaeth academaidd a thystiolaeth o COVID-19 i fapio dosbarthiad daearyddol grwpiau a allai fod yn agored i niwed a allai wynebu mwy o risg oherwydd effeithiau iechyd uniongyrchol y clefyd ac effeithiau mesurau lliniaru fel cau ysgolion, ynysu aelwydydd, a chyfyngiadau ar y sector lletygarwch a manwerthu, ac effeithiau economaidd-gymdeithasol mewn perthynas ag amodau tai, statws cyflogaeth ac amgylchiadau ariannol.

2.16. Mae gwerthusiad DU gyfan o Ymarfer Pegasus yn mynd rhagddo. Yng Nghymru, rydym yn sefydlu grŵp bach i gynorthwyo gyda'r broses. Caiff canfyddiadau cychwynnol Llywodraeth Cymru eu cyhoeddi ar ddiwedd mis Mawrth, gyda'r bwriad o gyhoeddi adroddiad terfynol yn ystod hydref 2026. Bydd angen i hyn ystyried allbynnau cam 4 yr ymarfer y disgwylir iddo gael ei gynnal ganol mis Mehefin. Fodd bynnag, tynnodd ein myfyrdodau cychwynnol o Ymarfer Pegasus sylw at yr angen i gael gafael ar ddata iechyd a'u rhannu'n gyflymach yn ystod pandemig. Rydym bellach yn gweithio'n agos gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gan ddefnyddio data wedi'u hefelychu, i brofi'r broses gyfan ar gyfer sicrhau mynediad cyfreithlon a diogel i setiau data iechyd drwy'r Adnodd Data Cenedlaethol. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut y gall ymatebwyr, dadansoddwyr ac ymchwilwyr feithrin dealltwriaeth a nodi grwpiau sy'n wynebu risg yn gyflymach yn ystod argyfyngau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu cwblhau'r prawf hwn erbyn diwedd 2026.

2.17. I'n helpu i gyflawni'r amcan hwn hefyd, yn ystod yr ymarfer, gwnaethom brofi ein Cysyniad Gweithrediadau a'n strwythurau, gan gynnwys sefydlu Cell Tegwch a Chydraddoldebau, fel y nodwyd uchod. Roedd y gell hon yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau yn y trydydd sector ymhlith ei haelodaeth. Gwnaethom hefyd brofi tîm tegwch a chydraddoldebau penodol er mwyn sicrhau bod pobl agored i niwed a chydraddoldebau yn cael eu hystyried ym mhob rhan o'r broses ar gyfer datblygu polisïau a gwneud penderfyniadau.

**Sut y byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gynnwys wrth wneud penderfyniadau brys**

2.18. Er mwyn sicrhau y caiff ein gwaith i nodi grwpiau agored i niwed ei gynnwys wrth wneud penderfyniadau brys, byddwn yn adlewyrchu ein trefniadau yn ein Cysyniad Gweithrediadau, ac yn ystyried y gwersi a nodir drwy'r gwerthusiad ehangach o Ymarfer Pegasus y cyflwynir adroddiad arno yn ddiweddarach yn 2026 ac yn eu rhoi ar waith. Bydd hyn yn cynnwys nodi cyfrifoldebau drwy wahanol gamau'r argyfwng, gan gynnwys, yn ystod argyfwng parhaus, creu tîm tegwch a chydraddoldeb o dan y trefniadau ar gyfer tasgluoedd.

## 3. Prosesau gwneud penderfyniadau'r Llywodraeth

**Argymhelliad 10 – Strwythurau gwneud penderfyniadau mewn argyfwng sifil**

Dylai llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig nodi mewn strategaethau parodrwydd ar gyfer pandemig yn y dyfodol (gweler Adroddiad Modiwl 1 yr Ymchwiliad, Argymhelliad 4) sut y bydd y broses gwneud penderfyniadau yn gweithio mewn pandemig yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys darpariaeth i COBR gael ei ddefnyddio’n strwythur ymateb cychwynnol a dylai nodi sut y bydd llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig yn trosglwyddo o reoli pandemig drwy COBR i’w reoli drwy drefniadau ar wahân ym mhob gwlad pan ddaw’n amlwg y bydd yr argyfwng yn un tymor hwy.

Dylai gynnwys darpariaeth ar gyfer strwythurau gwneud penderfyniadau tymor hwy yn llywodraeth y DU sy’n cynnwys:

- grŵp strategaeth i bennu’r dull gweithredu cyffredinol ar gyfer pob cam o’r pandemig ac i wneud penderfyniadau ar ymyriadau mawr (e.e. gosod a chodi cyfyngiadau symud);
- grŵp gweithredol i wneud penderfyniadau drwy gydol y pandemig ar weithredu’r strategaeth y cytunwyd arni.

Dylai dyluniad y strwythurau hyn gynnwys amlinelliad o’r gweithdrefnau gwneud penderfyniadau ar gyfer pob grŵp.

Dylai’r strategaeth wneud darpariaeth benodol ar gyfer cynnwys Cabinet y DU ym mhrosesau gwneud penderfyniadau’r grŵp strategaeth a’r grŵp gweithredol. Dylai hefyd ddarparu mai Cabinetau’r DU, yr Alban a Chymru, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, a ddylai wneud penderfyniadau tymor hwy yn bennaf.

Dylai’r grwpiau gwneud penderfyniadau ym mhob gwlad gynnwys gweinidog sy’n gyfrifol am gynrychioli buddiannau grwpiau agored i niwed. Yn llywodraeth y DU, mae’n bosibl mai’r Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb fyddai’r gweinidog mwyaf priodol yn hyn o beth.

**Argymhelliad 11 – Trefniadau wrth gefn ar gyfer unigolion allweddol**

Dylai llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig sefydlu trefniadau ffurfiol ar gyfer ymgymryd â rolau’r Prif Weinidogion (ac yng Ngogledd Iwerddon, y dirprwy Brif Weinidog) fel y bo’n gymwys yn ystod argyfwng sifil system gyfan, os nad yw’r deiliad yn gallu ymgymryd â’i ddyletswyddau am unrhyw reswm.

**Argymhelliad 12 – Tasgluoedd**

Dylai'r ymateb i argyfwng sifil system gyfan yn y dyfodol gael ei gydgysylltu drwy dasgluoedd canolog, hynny yw tasglu yr un ar gyfer y DU, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Byddai'r rhain yn gyfrifol am gomisiynu a chyfosod cyngor, cydgysylltu un darlun data a hwyluso prosesau gwneud penderfyniadau. Wrth baratoi, dylai llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, yn unigol, ddylunio'r gweithdrefnau gweithredu ar gyfer y tasgluoedd hyn. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny, nodi'r rolau allweddol y mae eu hangen i redeg y tasglu a sut y byddai unigolion yn cael eu penodi i'r rolau hynny.

Dylai llywodraeth y DU hefyd nodi rôl ei thasglu o ran cefnogi gweithdrefnau gwneud penderfyniadau o fewn y strwythurau gwneud penderfyniadau ar strategaeth a gweithredu.

Dylid ymgorffori'r trefniadau hyn mewn strategaethau parodrwydd ar gyfer pandemig yn y dyfodol (gweler Adroddiad Modiwl 1 yr Ymchwiliad, Argymhelliad 4).

**Strwythurau gwneud penderfyniadau**

3.1. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen i bedair gwlad y DU gydweithio'n agos er mwyn ymateb yn effeithiol i unrhyw argyfyngau ar raddfa fawr sy'n effeithio ar bob rhan o'r DU. Rydym yn cytuno bod angen i'r prosesau a'r strwythurau ar gyfer gwneud penderfyniadau a chydgysylltu fod wedi'u diffinio'n glir ac yn dryloyw, gan adlewyrchu'r ffaith mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru. Dylai'r trefniadau ar gyfer cydweithio ar sail pedair gwlad fod yn seiliedig ar bartneriaeth, ymddiriedaeth a chyd-barch – byth ar hierarchaeth ganfyddedig – a dylent gydymffurfio â'r egwyddorion, y strwythurau a'r dulliau gweithredu a nodir yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol[2]. Lle bydd digwyddiad yn effeithio ar Gymru, neu lle bo potensial y gallai effeithio ar Gymru, bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ati'n ddi-oed i roi ei threfniadau rheoli argyfwng ar waith mewn ffordd sy'n gymesur i raddfa a maint y digwyddiad.

[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/61df0068e90e07037ba76b4c/The_Review_of_Intergovernmental_Relations.pdf

3.2. Rydym o blaid parhau â'r arfer o gynnal cyfarfodydd COBR cynnar neu drafodaethau rhwng y pedair gwlad ar ddechrau argyfwng sy'n effeithio ar y DU gyfan. Rydym yn derbyn mai COBR, mewn sawl senario, fydd y fforwm ar gyfer trafod penderfyniadau posibl (a lle y gellir cyflawni consensws, gobeithio, rhwng y pedair gwlad ar y penderfyniadau y mae angen eu gwneud). Fodd bynnag, rhaid i benderfyniadau sy'n ymwneud â materion datganoledig gael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru o'r cychwyn, ac nid gan COBR. Ni ellir dirprwyo cyfrifoldebau datganoledig i unrhyw gorff arall, hyd yn oed mewn argyfwng: mae Llywodraeth Cymru yn atebol i'r Senedd am arfer pwerau datganoledig, gan gynnwys mewn perthynas â gwneud penderfyniadau yn ystod unrhyw bandemig neu argyfwng arall yn y dyfodol.

3.3. Rydym hefyd yn cytuno mewn egwyddor y dylai grwpiau gwneud penderfyniadau gynnwys gweinidog sy'n gyfrifol am gynrychioli buddiannau grwpiau agored i niwed; cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026 fydd pennu ei phortffolios Gweinidogol.

**Trefniadau parhad**

3.4. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag **argymhelliad 11** ac yn ei groesawu a gall gadarnhau bod mesurau olyniaeth eisoes ar waith.

3.5. Mae darpariaethau cyfansoddiadol sefydledig er mwyn gwarantu parhad arweinyddiaeth mewn senarios difrifol. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel mesur interim, os na fydd y Prif Weinidog am unrhyw reswm yn gallu gweithredu (boed drwy salwch neu achos arall), gall person a gaiff ei ddynodi gan Lywydd y Senedd arfer swyddogaethau'r Prif Weinidog. Pe na fyddai'r Prif Weinidog yn gallu gweithredu'n barhaol (boed drwy farwolaeth, absenoldeb parhaol, salwch difrifol neu achos arall), mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd enwebu Prif Weinidog newydd o fewn 28 diwrnod. Mae'r systemau statudol hyn yn darparu sail ffurfiol i'n gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth drwy sicrhau, hyd yn oed o dan amgylchiadau eithriadol, bod proses ddemocrataidd glir ar gyfer penodi arweinwyr newydd.

3.6. Ar hyn o bryd, yn rhinwedd rôl y Dirprwy Brif Weinidog, sy'n cynnwys cyfrifoldeb penodol i ddirprwyo ar ran y Prif Weinidog, rydym yn cynnal parhad arweinyddiaeth yn ystod argyfyngau. Os na fydd y Prif Weinidog ar gael neu os na fydd yn gallu gweithredu, mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn barod i ymgymryd â dyletswyddau'r Prif Weinidog, gan sicrhau y gall y Cabinet, y llywodraeth a'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau hanfodol barhau heb unrhyw darfu.Mae gennym hefyd brotocolau ffurfiol ar waith i

gefnogi'r parhad hwn – er enghraifft, mae arferion hirsefydledig yn dynodi os na all y Prif Weinidog gadeirio un o sesiynau'r Cabinet neu sesiwn frys, y bydd y Dirprwy Brif Weinidog (neu uwch-Weinidog arall fel y bo'n briodol) yn cadeirio ar ei ran. Cafodd y trefniadau hyn eu dangos yn effeithiol yn ystod 2020-21, ac maent yn parhau'n gonglfaen i'n gwydnwch a'n trefniadau o ran parhad y llywodraeth.

3.7. Gyda'i gilydd, mae rôl ddirprwyol uniongyrchol y Dirprwy Brif Weinidog a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer penodi Prif Weinidog newydd dros dro neu'n barhaol yn cynnig trefniant wrth gefn cynhwysfawr sy'n addas ar gyfer pob terfyn amser – o analluogrwydd byrdymor sydyn i achos o darfu mwy parhaus.

3.8. Gan edrych i'r dyfodol, caiff y mater hwn ei ystyried gan y Prif Weinidog a'r Cabinet yn dilyn etholiad Senedd 2026, yn sgil y portffolios Gweinidogol newydd a gaiff eu creu. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau, ni waeth beth fo'r amgylchiadau, nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch sut yr ymdrinnir â chyfrifoldebau arweinyddiaeth yn ystod argyfwng system gyfan.

**Rhoi proses gwneud penderfyniadau ar waith a chefnogi'r broses honno**

3.9. Yn ein hymateb i argymhelliad 2 o adroddiad Modiwl 1, gwnaethom gydnabod pe byddai argyfwng system gyfan parhaus, fod cyfyngiadau yn gysylltiedig â'r model adran arweiniol y llywodraeth ac y gellid bod angen model gwahanol. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen strwythurau ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn ymateb yn effeithiol i argyfwng, ond bod hefyd angen strwythurau sy'n sicrhau bod gan wneuthurwyr penderfyniadau y cyngor sydd ei angen arnynt i wneud y penderfyniadau hynny ac wedyn i sicrhau y caiff y penderfyniadau a wneir eu rhoi ar waith.

3.10. Rydym yn derbyn **argymhelliad 12**, y dylai'r ymateb i argyfwng sifil system gyfan yn y dyfodol gael ei gydgysylltu drwy dasgluoedd canolog ym mhob gwlad, a fydd yn gyfrifol am gomisiynu a chyfosod cyngor, cydgysylltu un darlun data a hwyluso prosesau gwneud penderfyniadau. Roedd Tasglu COVID-19 Llywodraeth Cymru yn elfen hanfodol o'n trefniadau mewnol yn ystod y pandemig, fel y nodwyd gan yr Ymchwiliad ei hun.

3.11. Mewn ymateb i argymhelliad 2 o adroddiad Modiwl 1, gwnaethom sefydlu is-grŵp, o dan ein Pwyllgor Risg a Pharodrwydd, i ystyried modelau posibl

gan gynnwys tasglu parhaus ar gyfer argyfyngau system gyfan. Bydd y tasglu parhaus yn darparu cyfrwng penodedig ar gyfer senarios lle mae angen cydgysylltu ymateb parhaus i argyfwng. Mae amcanion y tasglu fel a ganlyn:

- Adnoddau penodol i gydgysylltu ymateb trawslywodraethol ar gyfer argyfwng system gyfan parhaus;
- Strwythurau llywodraethu penodol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau a sicrhau atebolrwydd trawslywodraethol;
- Galluogi arweinyddiaeth strategol;
- Integreiddio camau i adfer cymunedau, yr economi a chymdeithas fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau yn gynharach wrth ystyried yr ymateb.

3.12. Fel rhan o'n hymrwymiadau i ddysgu parhaus, gwnaethom gynnwys tasglu peilot yn ystod Ymarfer Pegasus. Caiff gwybodaeth o'r ymarfer ei defnyddio i fireinio model y tasglu, gan gynnwys rolau allweddol, prosesau uwchgyfeirio ac isgyfeirio. Bydd y tasglu parhaus yn rhan o'r Cysyniad Gweithrediadau ar gyfer Rheoli Argyfwng a gaiff ei gyhoeddi ddechrau haf 2026.

# 4. Deddfwriaeth

| **Argymhelliad 15 – Craffu ar bwerau brys**<br><br>Dylai llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau mai'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yw'r broses safonol ar gyfer deddfu pwerau sylweddol ac eang mewn argyfwng sifil, megis pandemig, o dan ddeddfwriaeth sylfaenol ym maes iechyd y cyhoedd.<br><br>Dylai unrhyw amrywiad i'r weithdrefn hon fod yn eithriad, a dylai meini prawf a mesurau diogelu clir fod ar waith i atal osgoi craffu seneddol. Dylai'r mesurau diogelu hyn gynnwys:<br>• 'cymalau machlud' ar gyfer rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', sy'n pennu dyddiad dod i ben clir, sef o fewn deufis fel arfer;<br>• dyletswydd ar weinidogion i adrodd i'w deddfwrfeydd priodol bob deufis ar arfer pwerau brys. |
|---|
| **Argymhelliad 16 – Adolygu'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl**<br><br>Dylai llywodraeth y DU gynnal adolygiad o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 i asesu ei rôl bosibl o ran rheoli argyfyngau sifil yn y dyfodol, gan gynnwys pandemigau, ac a ellid ei ddefnyddio'n fframwaith argyfwng dros dro hyd nes y bydd deddfwriaeth fwy penodol sydd â mesurau diogelu seneddol priodol yn cael ei phasio.<br><br>Dylai'r adolygiad:<br>• archwilio'r amodau y caniateir troi at Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 odanynt mewn argyfwng iechyd y cyhoedd;<br>• ystyried unrhyw addasiadau i fesurau diogelu'r Ddeddf, megis y prawf clo triphlyg neu derfynau amser, a fyddai'n ei gwneud yn fwy addasadwy i bandemig;<br>• cynhyrchu canllawiau clir ar gymhwysiad y Ddeddf i'w defnyddio mewn argyfyngau sifil, gan gynnwys pandemigau, i helpu i'w defnyddio fel mesur brys cyn i ddeddfwriaeth benodol – megis bil pandemig pwrpasol – gael ei phasio. |

### Craffu ar reoliadau o safbwynt deddfwriaethol

4.1. Er mwyn ymateb i bandemig neu argyfwng system gyfan arall, weithiau bydd angen cyflwyno cyfyngiadau ar ryddid pobl, a hynny drwy reoliadau. Yn ystod COVID-19, cafodd rhyddid pobl ei gwtogi'n sylweddol ar adegau.

Felly mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r Ymchwiliad y dylai'r ymateb deddfwriaethol i argyfyngau fod yn glir, wedi'i ddiffinio'n fanwl ac yn destun prosesau goruchwylio a chraffu seneddol priodol, ac mae'n derbyn argymhelliad 15 mewn egwyddor.

4.2. Yn ystod pandemig COVID-19, darparodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") y weithdrefn frys i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau heb osod rheoliadau drafft ger bron y Senedd a gofyn i'r Senedd eu cymeradwyo. Dyma'r weithdrefn “gadarnhaol gwnaed” y cyfeiriwyd ati yn Adroddiad Modiwl 2 yr Ymchwiliad. Mae'r Senedd wedi deddfu deddfwriaeth mewn amrywiaeth o feysydd sy'n caniatáu i is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud o dan y weithdrefn hon gan gydnabod ar adegau y gall fod disgwyl i weinidogion, ar ôl ystyried yn ofalus a llunio barn gadarn, gymryd camau brys, er enghraifft, mewn perthynas ag argyfwng diogelu iechyd difrifol fel pandemig COVID-19 neu er mwyn gwneud newidiadau cyflym i drothwyon neu esemptiadau treth.

4.3. Er gwaethaf yr angen am weithdrefnau brys o'r fath, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella hygyrchedd a chydlyniad cyfraith Cymru a'r broses goruchwylio democrataidd ar ei chyfer. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru (‘*Dyfodol Cyfraith Cymru, rhaglen ar gyfer 2021 i 2026’)* yn cynnwys gwneud Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 (“Deddf 2025”). Ei diben yw dod â'r trefniadau ar gyfer gwneud deddfwriaeth yng Nghymru ynghyd a'u ffurfioli.

4.4. Ers 1 Ionawr 2026, disodlwyd y weithdrefn “gadarnhaol gwnaed” yng nghyfraith Cymru gan weithdrefn newydd, sef “gweithdrefn gadarnhau'r Senedd”. Er bod y weithdrefn hon yn dal i weithredu yn yr un ffordd â'r weithdrefn ”gadarnhaol gwnaed”, mae “gweithdrefn gadarnhau'r Senedd” yn defnyddio terminoleg gliriach a mwy hygyrch. Mae'r enw yn esbonio mewn iaith syml bod yn rhaid i'r Senedd gadarnhau'r rheoliadau er mwyn iddynt barhau mewn grym, gan adlewyrchu'r nod polisi ehangach o sicrhau bod gan brosesau deddfwriaethol deitlau symlach sy'n hawdd i'r cyhoedd eu deall.

4.5. Mae'r newid hwn mewn terminoleg yn gydnaws â'r diwygiadau ehangach a gyflwynwyd gan Ddeddf 2025 sy'n dod â gweithdrefnau ynghyd mewn un man, gan eu symleiddio'n gategorïau craidd, defnyddio technegau drafftio

ac iaith fodern, a sicrhau hygyrchedd llawn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r eglurder hwn yn arbennig o werthfawr pan fydd sefyllfaoedd yn newid yn gyflym, fel argyfyngau sifil, lle mae dulliau enwi hygyrch a greddfol yn helpu'r cyhoedd i ddeall ac yn hwyluso prosesau craffu effeithiol.

4.6. Lle mai gweithdrefn gadarnhau'r Senedd yw'r weithdrefn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gallai defnyddio cymalau machlud ac adrodd i'r Senedd ar y broses o arfer pwerau brys ddarparu systemau defnyddiol er mwyn gwella tryloywder, prosesau craffu a chydweithio.Yn ystod pandemig COVID-19, cafodd y rheoliadau a oedd yn gosod cyfyngiadau ar fusnesau ac unigolion eu hadolygu bob 21 diwrnod yng Nghymru a chafodd cyngor y Prif Swyddog Meddygol a chrynodeb y Gell Cyngor Technegol, yr oedd y penderfyniadau a wnaed yn ystod yr adolygiad bob 21 diwrnod yn seiliedig arnynt, eu cyhoeddi er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Senedd a'r cyhoedd yn deall y dystiolaeth a'r cyngor a oedd yn cefnogi penderfyniadau a phroses gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Roedd adroddiadau cyfunol rheolaidd hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Senedd ar yr holl ddeddfwriaeth a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ac ar y defnydd a wnaed o bwerau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Coronafeirws 2020 drwy'r Datganiadau Ysgrifenedig Gweinidogol a oedd yn cael eu cyhoeddi i hysbysu Aelodau o'r Senedd, a'r cyhoedd, fod deddfwriaeth allweddol a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 yn cael ei gwneud.

4.7. Mae'n bwysig cydnabod y bydd angen gwahanol ddulliau deddfwriaethol ar gyfer gwahanol argyfyngau ac y byddai angen ystyried y dulliau hynny ar sail achosion unigol er mwyn asesu'r ymateb mwyaf priodol, gan gynnwys y gweithdrefnau priodol i'r Senedd eu defnyddio. Mater i'r llywodraeth ar y pryd fyddai hyn, wrth iddi bwyso a mesur prosesau craffu digonol gan y Senedd yn erbyn yr ymateb brys priodol er mwyn diogelu pobl ac achub bywydau.

**Adolygu Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004**

4.8. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn **argymhelliad 16** yr Ymchwiliad, y dylid cynnal adolygiad o Ran 2 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae Rheoliad 59 o Reoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio Wrth Gefn) 2005 yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Weinidog Swyddfa'r Cabinet i adolygu rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2004 bob pum mlynedd, ond fel arfer mae Llywodraeth y DU yn trin y ddarpariaeth hon fel cyfle i adolygu cyfundrefn gyfan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl.

4.9. Disgwylir i'r adolygiad nesaf gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2027, ac rydym yn cytuno â chynnig Llywodraeth y DU i ystyried y meysydd a nodwyd gan yr Ymchwiliad mewn perthynas â'r gallu i gymhwyso Rhan 2 o'r Ddeddf fel rhan o'r adolygiad hwn. Rydym yn croesawu'r sicrwydd a gawsom gan Lywodraeth y DU y bydd yr adolygiad yn cynnwys cryn dipyn o ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig a'r gymuned gwydnwch ehangach; bydd yn hanfodol cynnwys y llywodraethau datganoledig o'r cychwyn cyntaf yn hytrach nag ymgynghori â nhw'n ddiweddarach, ac rydym yn bwriadu cymryd rhan lawn yn yr adolygiad. Nid ydym am ragfarnu canlyniad yr adolygiad hwn, ond nid ydym o'r farn mai Rhan 2 o'r Ddeddf fydd y cyfrwng cywir ar gyfer argyfwng iechyd y cyhoedd, o ystyried bod iechyd y cyhoedd yn fater sydd wedi'i ddatganoli a bod pwerau Gweinidogol perthnasol wedi'u nodi yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Yn hytrach nag ystyried Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 fel adnodd interim i reoli argyfyngau system gyfan, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ymateb i argyfyngau sifil yn y dyfodol â datrysiadau sy'n gwella gallu'r llywodraethau datganoledig i ymgysylltu a gwneud penderfyniadau, yn hytrach na'u gwthio i'r neilltu.

4.10. Caiff y Ddeddf ei hun ei chefnogi gan goncordatau rhwng Llywodraeth y DU a phob un o'r llywodraethau datganoledig, sy'n darparu fframweithiau cydweithio mewn perthynas â gweithredu Rhan 2 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Fodd bynnag, nid yw'r concordat â Llywodraeth Cymru wedi cael ei adolygu ers sawl blwyddyn ac nid yw'n adlewyrchu'r datblygiadau o ran argyfyngau sifil posibl ac ymatebion brys. Felly rydym o'r farn y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag adolygu'r Ddeddf, adolygu a diweddaru'r concordat, gan ailbwysleisio rôl trefniadau rhynglywodraethol ar wydnwch er mwyn cefnogi dull gweithredu gan y DU gyfan mewn ymateb i argyfyngau system gyfan. Byddwn yn cyflwyno'r achos o blaid gwneud hynny i Lywodraeth y DU.

## 5. Cysylltiadau rhynglywodraethol

| |
|---|
| **Argymhelliad 18 – Presenoldeb cynrychiolwyr y gweinyddiaethau datganoledig mewn cyfarfodydd COBR**<br><br>Dylai llywodraeth y DU wahodd y gweinyddiaethau datganoledig, fel mater o arfer safonol, i enwebu gweinidogion a swyddogion perthnasol i fynychu cyfarfodydd COBR mewn achosion o argyfyngau sifil system gyfan perthnasol y mae posibilrwydd y gallent effeithio ar y DU gyfan. |
| **Argymhelliad 19 – Strwythur a chysylltiadau rhynglywodraethol**<br><br>Er y dylai cysylltiadau rhynglywodraethol gael eu hwyluso drwy COBR yn ystod misoedd cyntaf unrhyw bandemig yn y dyfodol, dylai llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod strwythur pedair gwlad penodol, sy'n ymwneud ag ymateb i'r pandemig, yn cael ei roi ar waith yr un pryd ag y bydd y trefniadau'n cael eu trosglwyddo o COBR i strwythurau penodol pob gwlad ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dylai hwn gyfarfod yn rheolaidd yn ystod pandemig a dylai'r holl benaethiaid llywodraethau ei fynychu.<br><br>Dylai'r trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd pedair gwlad hyn gael eu hymgorffori mewn strategaethau parodrwydd ar gyfer pandemig yn y dyfodol (gweler Adroddiad Modiwl 1 yr Ymchwiliad, Argymhelliad 4). |

### Fforymau rhynglywodraethol ar gyfer ymatebion brys

5.1. Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn ein hymateb, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen i bedair gwlad y Deyrnas Unedig gydweithio'n agos er mwyn ymateb yn effeithiol i unrhyw argyfwng system gyfan, a hynny drwy strwythurau rhynglywodraethol y bydd pedair gwlad y DU yn eu mynychu lle bynnag y bo angen.

5.2. Felly rydym yn croesawu **argymhelliad 18**, y dylai Llywodraeth y DU wahodd y llywodraethau datganoledig, fel mater o arfer safonol, i enwebu gweinidogion a swyddogion perthnasol i fynychu cyfarfodydd COBR mewn achosion o argyfyngau sifil system gyfan perthnasol y mae posibilrwydd y gallent effeithio ar y DU gyfan. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid gwahodd swyddogion a gweinidogion i bob cyfarfod COBR pan gaiff risgiau eu nodi a allai effeithio ar Gymru, ni waeth a yw tarddiad y risg neu'r mater

yn gyfrifoldeb a gedwir yn ôl (fel gwrthderfysgaeth neu ddiogelwch gwladol) neu'n gyfrifoldeb datganoledig (fel perygl llifogydd neu iechyd y cyhoedd). Mae hyn oherwydd mai'r llywodraethau datganoledig fydd yn gyfrifol am reoli'r canlyniadau a'r effeithiau ar gymunedau, yr economi, gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a'r amgylchedd, fel y nodir uchod.

5.3. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno, er y dylai cysylltiadau rhynglywodraethol gael eu hwyluso yn y rhan fwyaf o achosion drwy COBR yn ystod cam cychwynnol pandemig yn y dyfodol, y dylid hefyd roi fforwm penodol i'r pedair gwlad ar waith i lunio ymateb ar lefel penaethiaid y llywodraethau, yn unol ag **argymhelliad 19**. Rydym yn nodi argymhelliad yr Ymchwiliad y dylai'r fforwm hwn gael ei roi ar waith ar yr un pryd ag y bydd y trefniadau'n cael eu trosglwyddo o COBR i strwythurau penodol pob gwlad ar gyfer gwneud penderfyniadau, ond fel y nodir uchod, rhaid i benderfyniadau am yr ymateb i bandemig yn y meysydd datganoledig gael eu gwneud gan y llywodraethau datganoledig o ddechrau pandemig (neu unrhyw argyfwng system gyfan arall). Er mwyn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill i ddatblygu trefniadau y bydd pob llywodraeth wedi cytuno iddynt, gan adeiladu ar y strwythurau rhynglywodraethol cyffredinol sy'n bodoli eisoes a chan gynnwys arferion gorau sefydledig. Os caiff y dull hwn ei weithredu, rydym o'r farn bod modd cyflawni cytundeb rhwng y pedair gwlad o fewn 12 mis.

## 6. Cyfathrebu â'r cyhoedd yn ystod argyfwng

| |
|---|
| **Argymhelliad 14: Cynlluniau ar gyfer cyfathrebu hygyrch**<br><br>Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ddatblygu cynlluniau gweithredu sy'n nodi sut yr eir ati i sicrhau bod cyfathrebu'r llywodraeth yn fwy hygyrch yn ystod pandemig.<br><br>Fan leiaf, dylai'r rhain gynnwys gwneud darpariaeth i gyfieithu cynadleddau'r llywodraethau i'r wasg i Iaith Arwyddion Prydain (ac i Iaith Arwyddion Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon) a chyfieithu cyhoeddiadau allweddol i'r ieithoedd a siaredir amlaf yn y DU. |
| **Argymhelliad 17: Storfa ganolog ar gyfer cyfyngiadau a chanllawiau**<br><br>Dylai llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ddatblygu porth ar-lein i'w ddefnyddio mewn argyfyngau sifil yn y dyfodol, lle y gall aelodau'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth am y cyfyngiadau cyfreithiol sy'n gymwys yn eu hardal ynghyd ag unrhyw ganllawiau cysylltiedig.<br><br>Dylai'r porth hwn fod yn hawdd ei gyrraedd a dylai ei gynnwys gael ei ysgrifennu mewn iaith syml a diamwys. |

6.1. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn **argymhelliad 14**, i ddatblygu cynlluniau gweithredu sy'n nodi sut yr eir ati i sicrhau bod cyfathrebu'r llywodraeth yn hygyrch yn ystod pandemig, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i gyfathrebu mewn ffordd glir a hygyrch yn ystod pandemig yn y dyfodol (neu unrhyw argyfwng system gyfan arall). Dangosodd ein cyfathrebu yn ystod pandemig COVID-19 ein hymrwymiad i hygyrchedd: fel y noda'r Ymchwiliad, ddechrau mis Mehefin 2020, gwnaethom sefydlu Grŵp Cyfathrebu Hygyrch i wella mynediad at wybodaeth am COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny a fyddai o bosibl wedi wynebu rhwystrau wrth ddeall cyfathrebu Llywodraeth Cymru, a gwnaethom gymryd camau i sicrhau bod ein cyfathrebu yn fwy hygyrch mewn ymateb i'w hadborth.

6.2. Ers y pandemig, rydym wedi rhoi canllawiau ar waith, yn nodi sut i sicrhau bod ein cyfathrebu yn hygyrch; maent yn nodi'r prif anghenion ar gyfer

cyfathrebu hygyrch (gan gynnwys bod yn F/fyddar, bod yn ddall neu weld yn rhannol, anawsterau dysgu, niwroamrywiaeth, lefelau llythrennedd, iaith ac oedran) ac maent yn esbonio'r gwahanol anghenion a fformatau a all helpu wrth gyfathrebu â phobl y mae angen dulliau cyfathrebu hygyrch arnynt. Rydym hefyd wedi cynhyrchu Canllaw Cyfathrebu Cynhwysol, sy'n nodi arferion gorau ac enghreifftiau ymarferol ar gyfer cyfathrebu cynhwysol yn seiliedig ar chwe egwyddor cyfathrebu cynhwysol. Mae'r canllawiau yn seiliedig ar yr arferion gorau diweddaraf ar gyfer cyfathrebu cynhwysol; gwnaethom hefyd gynnal gweithdai a chyfweliadau â rhanddeiliaid allanol a grwpiau â phrofiad bywyd, a ddarparodd fewnbwn gwerthfawr ac enghreifftiau sydd wedi llywio'r canllawiau.

6.3. O fewn y chwe mis nesaf, byddwn hefyd yn ychwanegu adran benodol at y Canllaw Cyfathrebu Cynhwysol i adlewyrchu arferion gorau yn ystod gweithgareddau cyfathrebu mewn argyfwng.

6.4. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn **argymhelliad 17** yr Ymchwiliad mewn egwyddor, ar gyfer storfa unigol o wybodaeth am gyfyngiadau cyfreithiol a chanllawiau eraill. Rydym yn cytuno ei bod hi'n hanfodol i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru allu cael gafael ar wybodaeth am gyfyngiadau cyfreithiol a chanllawiau sy'n berthnasol iddynt, ac y cymerir camau i osgoi unrhyw ddryswch o ran cyfyngiadau gwahanol sydd ar waith yng ngwledydd eraill y DU. Yn ystod y pandemig, gwnaethom ddefnyddio pob sianel a oedd ar gael inni er mwyn darparu gwybodaeth glir a chyson i'r cyhoedd yng Nghymru, wedi'i diweddaru mewn amser real, wrth i'r cyfyngiadau newid.

6.5. Roedd platfform dwyieithog LLYW.CYMRU yn rhan greiddiol o hyn, gan gynnwys y dudalen lanio benodol llyw.cymru/coronafeirws, a oedd yn cynnwys gwybodaeth glir am y prif gyfyngiadau a oedd ar waith yng Nghymru, gyda dolenni at ganllawiau pellach. Cafwyd mwy na 25 miliwn o ymweliadau â'r platfform yn 2020, gan awgrymu bod ein strategaeth o gyfeirio pobl at y platfform fel 'fersiwn unigol o'r gwir' yn effeithiol i ni ac i'n partneriaid. Yn ein barn ni, defnyddio un llwyfan o'r fath yw'r ffordd orau i Lywodraeth Cymru gyfathrebu'n uniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru, yn hytrach na chreu porth ar wahân ar gyfer gwybodaeth am argyfyngau sifil.

6.6. Fodd bynnag, canfu'r Ymchwiliad ei hun *"[t]he UK government's announcements often failed sufficiently to explain whether they applied to all four nations or to England alone."*

6.7. Felly byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill i wella'r broses o gydgysylltu cyfathrebu cyhoeddus, ac i gydgynhyrchu yn ystod 2026 gyfres newydd o egwyddorion ar sail y pedair gwlad ar gyfer cyfathrebu sy'n ymwneud â chyfyngiadau cyfreithiol a chanllawiau yn ystod argyfyngau sifil. Dylai'r rhain gynnwys cytundebau y bydd yr holl gynnwys cyfathrebu ym mhob gwlad yn nodi ei gwmpas daearyddol yn glir o'r cychwyn, y caiff negeseuon eu cydgysylltu rhwng llywodraethau, ac y bydd gweinidogion pob gwlad yn ymrwymo i beidio â chyfathrebu mewn ffordd a allai ddrysu'r cyhoedd sy'n byw rywle arall.

6.8. Byddai mabwysiadu'r egwyddorion hyn, yn ein barn ni, yn gam pwysig ymlaen wrth gyflawni dyletswydd pob llywodraeth i ddarparu gwybodaeth a chanllawiau clir i'w phobl am unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a allai fod yn berthnasol iddynt mewn argyfwng. Rhaid sicrhau bod eglurder daearyddol wrth wraidd unrhyw gyfathrebu, gan nodi'n glir a yw'r wybodaeth yn ymwneud â'r DU gyfan, gwlad benodol neu wledydd penodol, rhanbarth, neu ardal leol.

Tabl Camau Gweithredu

| Cam Gweithredu | Erbyn Pryd | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 2** | | |
| Gweithio gyda Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth, a gyda'r llywodraethau datganoledig eraill, i fireinio a chytuno ar drefniadau diwygiedig ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth ddatganoledig yng nghyfarfodydd SAGE | Rhoi diweddariad erbyn mis Tachwedd 2026 | |
| **Argymhelliad 3** | | |
| Datblygu cronfa o arbenigwyr posibl i roi cyngor technegol a gwyddonol arbenigol | Rhoi diweddariad erbyn mis Tachwedd 2026 | |
| **Argymhelliad 4** | | |
| Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu | | |
| **Argymhelliad 5** | | |
| Datblygu telerau penodi safonol ar gyfer cyfranogwyr mewn grwpiau cynghori gwyddonol | Datblygu cyngor pellach ar gynnydd erbyn mis Medi 2026 | |
| **Argymhelliad 8** | | |
| Cynnal adolygiad o Ymarfer Pegasus | Cychwynnol Mawrth 2026, llawn Rhagfyr 2026 | |
| Casglu tystiolaeth ar fylchau data ar draws amrywiaeth o argyfyngau | Mawrth 2027 | |
| Cynllun gweithredu dwy flynedd ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Tachwedd 2027 | |
| Profi mynediad diogel i setiau data iechyd drwy'r Adnodd Data Cenedlaethol | Rhagfyr 2026 | |
| Gwella llwyfan data JIGSO | Rhoi diweddariad erbyn mis Tachwedd 2026 | |
| **Argymhelliad 10** | | |
| Pennu'r portffolios Gweinidogol | Ar ôl etholiad y Senedd | |

| | | |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 11** | | |
| Pennu'r portffolios Gweinidogol | Ar ôl etholiad y Senedd | |
| **Argymhelliad 12** | | |
| Cyhoeddi'r Cysyniad Gweithrediadau ar gyfer Rheoli Argyfwng | Haf 2026 | |
| **Argymhelliad 14** | | |
| Ychwanegu adran arferion gorau wrth gyfathrebu mewn argyfwng at y Canllaw Cyfathrebu Cynhwysol | Medi 2026 | |
| **Argymhelliad 15** | | |
| Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu | | |
| **Argymhelliad 16** | | |
| Cymryd rhan yn adolygiad y DU o Ran 2 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 | Mawrth 2027 | |
| Gweithio gyda Llywodraeth y DU i adolygu a diweddaru'r concordat rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | Ar ôl etholiad y Senedd | |
| **Argymhelliad 17** | | |
| Gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill i gydgynhyrchu cyfres newydd o egwyddorion ar gyfer cyfathrebu sy'n ymwneud â chyfyngiadau cyfreithiol a chanllawiau yn ystod argyfyngau sifil | Rhagfyr 2026 | |
| **Argymhelliad 18** | | |
| Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu | | |
| **Argymhelliad 19** | | |
| Datblygu trefniadau y cytunwyd arnynt ar y cyd ar gyfer strwythurau arfaethedig | Mawrth 2027 | |